

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 19eg Dachwedd 2019

Presennol - Ffuon Williams, Cadeirydd, John D Jones, Prys Ellis, Menai Hughes, Maria Roberts, Guto G Jones, Einion Edwards, Cyng Peter Lewis . Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau , Ieuan Jones, Trystan Humphreys.

Datgan diddordeb – Datganwyd diddordeb yng nghofnod [1.9] gan John D Jones. Penderfynwyd nad oedd y diddordeb yn rhagfarnu ar y mater dan sylw.

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Hydref2019.

Materion yn Codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol. Y clerc i gysylltu ynglŷn â'i bresenoldeb.

[1.1] Strategaeth Hiraethog / Fferm Wynt Brenig

Deallwyd bod Ymddiriedolaeth Cerrig-y-Drudion yn bwriadu cyflwyno cais, a hefyd bod Cyfeillion Cerrig yn bwriadau cyflwyno cais dichonoldeb ar gyfer prynu Gwesty'r Llew Gwyn.

[1.2] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Tocio'r Coed

Nodwyd bod trefniadau wedi eu gwneud i docio'r coed.

[1.3] Pont Pentrellyncymer

Deallwyd nad oedd y gwaith wedi ei wneud. Y clerc i gysylltu'n bellach gyda'r Sir.

[1.4] Arwydd Stryd King / Yr Ysgol

Dywedodd y clerc ei fod yn disgwyl ateb gan y Cyngor Sir.

[1.5] Swydd y Clerc

Deallwyd bod Mrs Carol Humphreys a diddordeb. Y clerc i gysylltu gyda Mrs Humphreys.

[1.6] Coeden Sycamorwydden ger Maelor

Dywedodd y clerc i Mathew Bardsey Swyddog Coed y Cyngor Sir, gadarnhau ei fod wedi derbyn neges ynglun a'r goeden trwy ERF yn ychwanegol i gysylltiad y Cyngor Cymuned.

[1.7] Darren Millar AC

Cytunodd pawb gwrdd Aelod y Cynulliad yn yr Ystafell Blwyf ar 18fed Ragfyr am 7.30 yh.

[1.8] Bryn Fawnog Cefn Brith/Trafferthion Dwr

Deallwyd bod y perchenog mewn trafodaeth gyda'r Cyngor Sir ynglun a'r mater

Y brif Agenda

[1.9] Ceisiadau Cynllunio

Addasiadau ac estyniadau arfaethedig I anedd bresenol;
Cwm Eithin, Cerrig-y-Drudion.
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad I'r cais

[2] Gwasanaethau Cynaliadwy

Penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach ynglyn a'r costau i gynnal y gwasanaethau canlynol;

[a] Cae Chwarae, Cae Llwyd

[b] Llyfrgell

[c] Toiledau

[2.1] Gosod Ffens ar gyfer y fynedfa i'r Ystafell Blwyf.

Nodwyd ateb oddiwrth y Cyngor Sir I gais y Cyngor Cymuned I osod ffens ar fin y llwybr gyferbyn a'r fynedfa i atal rhag i oedolion ac yn enwedig plant gamu allan i'r ffordd. Deallwyd nad yw'r llwybr cerdded ddigon llydan yn ôl y canllawiau i wneud y gwaith.

[2.2] Project Conwy/ Llwybr Bach

Cyfeiriodd y clerc at lythyr oddiwrth Ms Bethan Beech yn datgan ei bod yn archwilio'r posibilrwydd o greu taith gylchol rhwng Cerrig a Chefn Brith gan ddefnyddio'r llwybr bach. Bydd cysylltiad pellach ynglyn a'r mater.

[2.3] Elusen Addysgol

Cytunodd Menai Hughes gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd yr elusen

Cadeirydd _____